cnd cymru
yr ymgyrch
dros ddiarfogi niwclear

haf 2012
rhif 57

hedwch

# Beth bynnag fo'n hiaith, rydym oll eisiau Heddwch,

Peace, Salaam, La Paix,
Pyong'hwa, Maluhia, Pingan,
Shalom, Síocháin, Nabad Da,
Mír, K'é, Béke, Der Frieden,
Bak, Fois, La Pau, Pax, Saanti,
Khanhaghutyun, Däilama,
Pokój, Kiñuiñak, Boóto, Amani,
Barish, Tsumukikatu,
Tlamatcanemiliztli, Irini....

**heddwch**
yw cylchgrawn yr Ymgyrch Ddiarfogi Niwclear yng Nghymru (CND Cymru)

**golygydd:**
Jill Gough

**cyfiethydd:**
Sian Edwards
sian@derwen.demon.co.uk

**cynhyrchu a phostio:**
Redkite Print
07810 566 919
redkiteprint@thefreeflyer.com

*Nid yw cynnwys **heddwch** o anghenraid yn adlewyrchu barn neu bolisïau **CND Cymru.** Rydym yn croesawu dadl a thrafodaeth. Anfonwch unrhyw sylwadau neu gyfraniadau at y golygydd.*

## cnd cymru

**Mae CND Cymru'n ymgyrchu ochr yn ochr â llu fudiadau eraill yng Nghymru a phedwar ban y byd i gael gwared o arfau dinistr torfol o Brydain a'r byd, a thros heddwch a chyfiawnder i bobl a'r amgylchedd.**

## cysylltiadau

**is-gaderyddion:**
Brian Jones
01792 830 330
swanseacnd@btinternet.com

Duncan Rees
07774 268 371
duncan.rees@co-operative.coop

George Crabb
01446 774 452

Ray Davies
02920 889 514

John Cox
01495 773 495
drjohncox@aol.com

**trysorydd, aelodaeth ac aelodau:**
CND Cymru
9 Primrose Hill,
Llanbadarn Fawr,
Aberystwyth SY23 3SE
michael.freeman9@btinternet.com

**masnachu:**
Kate and Del Rhys
coney@gn.apc.uk

**ysgrifenydd cenedlaethol:**
Jill Gough,
CND Cymru,
Llys Gwyn, Glynarthen,
Llandysul, SA44 6PS
01239 851 188
heddwch@cndcymru.org
www.cndcymru.org

# Carwyn, Leanne ac Aberdaugleddau - 1

## *Croeso i Gymru?*

**Condemniodd CND Cymru yn chwyrn ddatganiad y Prif Weinidog Carwyn Jones y byddai Cymru'n fwy na pharod i groesawu llongau tanfor niwclear Prydain pe baent yn cael eu hel allan o Alban annibynnol.**

Gwnaeth ei sylwadau yng nghanol ansicrwydd ynglwn â dyfodol system arfau niwclear Trident.

Ynghyd â phroblemau economaidd a strategol sydd wedi effeithio ar gynlluniau arfaethedig i gael system arall yn lle llongau tanfor arfau-niwclear Prydain, mae'r posibilrwydd y gallai Alban annibynnol daflu'r fflyd allan o'i phencadlys ar afon Clud wedi achosi panics piws yn San Steffan.

Ymosododd ASau ac ACau o bob lliw gwleidyddol ar ddatganiad Prif Weinidog Cymru, a oedd yn cynnwys yr awgrym y gallai Aberdaugleddau fod yn gartref i'r fflyd niwclear, gan.

Meddai Simon Thomas AC: 'Mae'n amlwg ei fod wedi colli gafael ar bethau os yw'n credu fod pobl Cymru am weld arfau niwclear wedi eu storio yma.

Byddai'n llawer gwell i Gymru pe bai llywodraeth San Steffan yn gwneud yr hyn y bu Plaid Cymru'n galw amdano ers amser maith – dileu Trident yn llwyr a gwario'r gost anferth ar gynlluniau creu swyddi hygred i hybu ein heconomi.' Ategwyd yr ateb hwn gan ymgyrchwyr gwrth-niwclear, a ddywedodd fod Mr Jones yn 'ymbalfalu yn y tywyllwch' am ateb i broblemau economaidd Cymru.

Mae hwn yn honiad cyfeiliornus a disylwedd gan Carwyn Jones. Os yw'n credu mai hyn yw'r ateb i'n problemau economaidd, yna mae wir yn ymbalfalu yn y tywyllwch. Byddai olynydd i Trident yn costio mwy na £100 biliwn dros ei oes, a'r unig ateb yw ei ddileu yn awr, dileu unrhyw gynlluniau i'w olynu, a buddsoddi'r arian a arbedwyd mewn creu swyddi a gwasanaethau cyhoeddus. Trwy wneud y fath ddatganiad bisâr, mae'n dangos ei fod ar donfedd gwbl wahanol i bobl Cymru.

Yn sgîl sylwadau'r Prif Weinidog, cyflwynodd yr ASau Llafur a Phlaid Cymru Elfyn Llwyd, Martin Caton, Jeremy Corbyn, Paul Flynn, Jonathan Edwards a Hywel Williams gynnig EDM 230 yn galw am Gymru ddi-Arfau Niwclear.

# Carwyn, Leanne ac Aberdaugleddau - 2

## *Hen Bryd Uno*

**Is-gadeirydd CND Cymru, John Cox, yn synfyfyrio ar y bwrlwm diweddar o benawdau ynglwn â'r posibilrwydd o leoli Trident neu olynydd iddo yng ngorllewin Cymru os caiff yr Alban ei hanibyniaeth.**

Dwi'n amau na wnaeth Carwyn Jones ystyried holl oblygiadau ei 'groeso' annoeth i'r posibilrwydd o leoli Trident yn Aberdaugleddau. Ei nod oedd awgrymu nad yw Plaid Cymru'n poeni gymaint ag ef ynglwn â chreu swyddi. Roedd ei sylwadau wedi eu hanelu'n uniongyrchol at arweinydd newydd Plaid Cymru, Leanne Wood, sydd yn amlwg wedi achosi cryn anesmwythyd iddo sawl gwaith yn ddiweddar trwy herio ei bolisïau o'r chwith.

Yr hyn na ragwelodd oedd dau ganlyniad pwysig a, phe buasai wedi meddwl am y peth o ddifri, llawn mor ragweladwy. Y cyntaf yw bod Plaid Cymru, o dan ei harweinydd newydd, yn croesawu unrhyw gyfle i ddadlau yn erbyn arfau niwclear (neu bwer niwclear, fel y gwnaethant mewn ymateb i wawdio annoeth cyffelyb ynglwn ag Wylfa B a chreu swyddi). Felly mae Plaid Cymru, gan ddefnyddio trefn y Cynulliad, wedi bod yn fwy na pharod i ddadlau mewn egwyddor yn erbyn meddu ar arfau niwclear.

Yr ail ganlyniad, llai cyhoeddus ond mwy tyngedfennol, oedd i'r rhan fwyaf o ACau Llafur ei gwneud hi'n glir nad oedden nhw'n cytuno â'r Prif Weinidog ar y mater yma (gwnaeth tri ohonynt, Julie Morgan, Mark Drakeford a Mick Antoniw, hynny'n gyhoeddus).
Tra byddai wedi bod yn wych pe baent wedi dangos eu gwrthwynebiad yn gyhoeddus trwy bleidleisio dros gynnig Plaid Cymru (yn gwrthwynebu geiriau'r Prif Weinidog), gwnaeth y rhwyg wleidyddol yn y Cynulliad hynny'n amhosibl ac, yn y pen draw, cafwyd pleidlais nad oedd y mater yn 'ddim o'n busnes ni'!

Sydd wrth gwrs yn ein harwain ofyn 'Pam, felly, y cododd y Prif Weinidog y mater yn y lle cyntaf?' neu 'Pam, felly, oedd hi'n dderbyniol i Jane Davidson, pan oedd hi'n Weinidog, i ddatgan ei gwrthwynebiad i Trident yn y Cynulliad?' neu, yn gymharol ddiweddar, i sawl AC a Gweinidog Llafur i siarad yn y Cynulliad yn erbyn arfau niwclear?

Er y bydd y sefyllfa hypothetig a godwyd gan Carwyn Jones yn destun sylw eto ym mis Hydref pan gyflwynir e-ddeiseb (gweler tud. 3) i'r Cynulliad, gobeithio y byddwn oll, yn ymgyrchwyr heddwch ac yn ACau, yn troi'n sylw wedyn i ganolbwyntio ar fygythiad gwirioneddol olynydd i Trident.

Efallai mai agwedd fwyaf calonogol y ddadl yn y Cynulliad oedd bod pob siaradwr o blith y Democratiaid Rhyddfrydol, Plaid Cymru a Llafur (ac eithrio'r Prif Weinidog, na ddywedodd ddim, yn llythrennol, am destun y ddadl) yn erbyn olynydd i Trident – boed wedi ei leoli yn yr Alban, Cymru neu Loegr. Gobeithio y gellir mynegi'r undod gwrth-niwclear hwn mewn ffyrdd amgen na chynnig confensiynol yn y Cynulliad. ▸

# Carwyn, Leanne ac Aberdaugleddau - 3

## *Drosodd atoch Chi*

## h e d d w e i t h r e d u :

**Trident ac Olynydd i Trident – dyma'r un mawr, ac mae digon y gall pob un o ddarllenwyr Heddwch ei wneud! Prin 4 blynedd werthfawr sydd gennym i atal olynydd i Trident:**

**1. Codwch eich llais a hoeliwch sylw ar y rhai a fydd yn penderfynu. Gofynnwch i'ch AS i arwyddo Cynnig EDM 96 - 'TRIDENT REPLACEMENT'.**
Wrth i effaith y toriadau mewn gwariant ddwysáu, mae'r galw'n cynyddu am ddileu'r gwariant o £100 biliwn ar olynydd i Trident. Os yw'ch aelod eisoes wedi arwyddo, anfonwch air i ddiolch iddo/iddi – ac fe fydd yn gwybod eich bod yn gwylio!
www.act.cnduk.org/lobby/63 (ar-lein) neu
www.theyworkforyou.com/
Neu: Eich AS, Tw'r Cyffredin, Westminster, Llundain SW1A 0AA

**2. Ar yr un pryd, gofynnwch i'ch AS arwyddo Cynnig EDM 230 - 'NUCLEAR WEAPON-FREE WALES'.**
www.theyworkforyou.com Neu: Eich AS, Tw'r Cyffredin, Westminster, Llundain SW1A 0AA

**3. Gwrthwynebwch symud Trident i Gymru – arwyddwch (a gofynnwch i'ch ffrindiau a'ch teulu i arwyddo) yr e-Ddeiseb:**
Mae'r Prif Weinidog, Carwyn Jones, wedi dweud y byddai croeso mawr i fflyd niwclear y DU (Trident) ddod i Aberdaugleddau pe byddai Alban annibynnol am gael gwared arnyn nhw.
Rydym ni'n gwrthwynebu cael arfau dinistriol o'r fath (WMD) yng Nghymru, ac yn annog Llywodraeth Cymru i wrthwynebu'r syniad o ganiatau fflyd niwclear y DU i ymgartrefu yng Nghymru.
http://tinyurl.com/cm3b4uf neu cysylltwch â Llinell Wybodaeth y Cynulliad Cenedlaethol
t: 0845 010 5500, ffôn testun: 0845 010 5678 os na allwch arwyddo ar-lein.



**4. Sgrifennwch at eich Aelod Cynulliad a gofynnwch iddo/iddi wrthwynebu unrhyw gynlluniau i symud Trident i Gymru.**
Eich AC, Y Cynulliad Cenedlaethol, Bae Caerdydd, Caerdydd CF99 1NA
I ddarganfod pwy yw'ch ACau, gweler
www.senedd.assemblywales.org or t: 0845 010 5500.

**5. Yn olaf, ond nid lleiaf: Cyflwyno'r Ddeiseb i'r Cynulliad Cenedlaethol – Rhowch Hydref 16eg (hanner dydd i 4 pm) yn eich dyddiadur!**
Mae angen i ni gynnull a chyd-drefnu gwrthdystiad gweledol iawn y tu allan i'r Cynulliad a fydd yn tynnu sylw ar y newyddion i ddangos nerth cefnogaeth y cyhoedd i Gymru Ddi-niwclear. Mae Trident Ploughshares, CND Cymru a Gweithredu Trefyclo dros Heddwch a Chyfiawnder wedi cytuno i gydweithio i adeiladu model o long danfor Trident a'i osod ar risiau'r Senedd, cael pobl i egluro pam na all ddod i Gymru, ac yna cael nifer o Ddreigiau Coch ac efallai rhai 'Merched Beca' cyfoes i'w ddinistrio! Gallai côr ganu'r Oratorio Trident bwerus, 20-munud o hyd (sydd eisoes wedi ei chyfansoddi). Mae angen i ni gynnull llu o bobl i ddod ac i gymryd rhan. Felly os ydych yn canu neu'n gwybod am gôr a allai fod â diddordeb, os gallwch adeiladu model o long danfor, neu os gallwch ddarbwyllo'ch AC neu AS i fod yno, neu helpu mewn unrhyw ffordd, da chi, cysylltwch ag
Angie Zelter, 6 Church St, Trefyclo, Powys, LD7 1AG
t: 01547 520 929 e: reforest@gn.apc.org



# Dim Fôt, Dim Yfed, Ond...

**I lawer ohonom, mae'r ymadrodd 'plant-filwyr' yn dwyn i feddwl ddarlun o bobl ifanc â'u Kalashnikovs yn Sierra Leone neu Weriniaeth Ddemocrataidd Congo. Ond bu'n rhaid i mi newid fy marn yn ddiweddar, wrth i bolisïau annerbyniol y Deyrnas Unedig ar recriwtio pobl ifanc i'w lluoedd arfog ddod yn gliriach i mi.**

Y DU yw unig wladwriaeth yr Undeb Ewropeaidd neu NATO sy'n gadael i rai 16 ac 17 oed ymuno â'r fyddin, y llynges neu'r awyrlu. Mae'n arfer a wrthwynebir gan y Cenhedloedd Unedig. Yn wir, mae safle unigryw'r DU yn hyn o beth wedi arwain at ei chollfarnu gan Bwyllgor y CU ar Hawliau'r Plentyn, sydd wedi gofyn i lywodraeth San Steffan ailystyried ei pholisi.

Ac eto, mae'r arfer yn parhau'n ddiball. Fe'i gwelir mewn ysgolion ar ffurf timau cyflwyno'r lluoedd arfog arbennig sy'n rhedeg gweithgareddau 'cynyddu ymwybyddiaeth', yn cynnig cynlluniau gwersi, dyddiau i ffwrdd a sgyrsiau gyrfa ynglwn â'r hyn y gallai bywyd yn y lluoedd arfog ei gynnig i blant.

Recriwtio yw hyn, wrth gwrs, o dan enw arall. Ac mae ymgyrch sydd newydd ei lansio, gyda deiseb i'r Cynulliad Cenedlaethol, am geisio newid y sefyllfa yng Nghymru. Mae'r fenter, a sefydlwyd gan unigolion pryderus, gyda chefnogaeth CND Cymru, Cymdeithas y Cymod, yr Undodwyr ac eraill, yn ceisio ennyn trafodaeth ym Mhwyllgor Deisebau'r Cynulliad ac yn ehangach.

Un o agweddau mwyaf annerbyniol y drefn bresennol yw'r cyfyngu ar hyd y cyfnodau ailfeddwl a ganiateir, pan all pobl ifanc newid eu meddwl ar ôl listio. A cheir tystiolaeth gynyddol bod ysgolion mewn ardaloedd tlawd yng Nghymru, a chymunedau lleiafrifol ethnig, yn dargedau arbennig ar gyfer y fath weithgareddau recriwtio. Felly, derbyniodd ysgolion Sir y Fflint nifer o ymweliadau yn ddiweddar, heb fod cofnod o'r un ymweliad ym Mro Morgannwg.

Penderfyniad prifathrawon yw caniatáu i dimau'r lluoedd arfog i ymweld ag ysgol ai peidio. Ond gwelir difrifoldeb y sefyllfa yn y ffaith bod undeb athrawon yr NUT wedi pleidleisio i wrthwynebu gweithgareddau recriwtio milwrol sy'n defnyddio 'propaganda camarweiniol' a 'fersiwn farchnata' o fywyd ar gyfer pobl ifanc yn y lluoedd arfog, yn hytrach nag egluro'r peryglon hefyd.

**Stephen Thomas**
**Cadeirydd CND Cymru**

## heddweithredu:

**Mae'r ffaith fod addysg wedi ei datganoli yng Nghymru wedi arwain at y galw am wneud yr arfer hwn yn anghyfreithlon yma.**
Ewch i
http://tinyurl.com/coqpcjb
i arwyddo, a dwyn pwysau ar ein gwleidyddion ym **Mae Caerdydd i adolygu'r mater hwn. Mae'r ddeiseb ar agor tan Ddydd y CU, 24 Hydref 2012.**
Gellir lawrlwytho fersiwn ar bapur o
http://tinyurl.com/d67xle4



nottsantimilitarism.wordpress.com

## Sŵn Angau ac Afradlonedd

**Mae trigolion cylch Aberporth yn gorfod dioddef swn atgas awyrennau di-beilot Watchkeeper yn hedfan uwchlaw eu cartrefi. Rhyfedd o beth, gan i swyddogion yn 'ymgynghoriad' awyrofod 2009 ddweud wrthynt na fyddai'r peiriannu hedfan hyn yn gwneud dim swn.**

Efallai nad yw'r swnian cyson, am oriau bwygilydd weithiau, mor dreiddgar neu mor sydyn â thwrw jetiau milwrol lefel-isel yn y Canolbarth, ond mae'n llawn mor fygythiol ac yn atgof cyson o'r ffordd mae Cymru'n cael ei defnyddio a'i chamddefnyddio i hyrwyddo achos 'lladd o hirbell' dan nawdd y llywodraeth. Mae cwmni arfau Qinetiq yn datblygu'r dyfeisiau er mwyn ysbïo ar bobl yn Afghanistan neu ble bynnag arall y penderfyna'r llywodraeth eu defnyddio – a'u targedu. Mae trigolion lleol yn poeni hefyd fod profion offer ysbïo yn cael eu gwneud ar bobl ac eiddo ar y ddaear islaw.

Gymaint gwell byddai gwario'r £26 miliwn a mwy o arian trethdalwyr a wariwyd ar ddatblygu Parc Aberporth ar greu swyddi go iawn i bobl leol, mesurau ynni effeithlon mewn cartrefi, a gwasanaethau cyhoeddus. Yn lle hynny, cyflogir llai na 35 o bobl ym Mharc Aberporth i hedfan a gwarchod y peiriannau ysbïo a lladd ofnadwy hyn.

Dywedir ei bod yn bosibl yr arfogir peiriannau hedfan Watchkeeper y WA yn y dyfodol. Gallant wedyn dargedu a lladd unrhyw un a fynn y gweithredydd – sydd fel barnwr, rheithgor a dienyddiwr.

### heddweithredu:

Dydy awyrennau milwrol di-beilot ddim yn rhan o'r Gymru y pleidleisiasom 'Ie' drosti. Da chi, cysylltwch â'ch ASau a'ch ACau (manylion cyswllt tud. 10) a gofyn iddyn nhw ailfeddwl a dewis ffyrdd gwell a mwy cynaliadwy, yn amgylcheddol ac yn foesol, o wario ffrwyth ein llafur.

**Mae Papur Cefndir gan CND Cymru, 'Adar Angau Uwchlaw Aberporth' ar gael. Gweler tud. 10 am fanylion.**

## Bradley Manning

**Er mwyn coffáu'r diwrnod y cymerwyd Bradley Manning i'r ddalfa gan yr UD ddwy flynedd yn ôl, aeth grwp cefnogi Cymru â phroject Plannu Hadau Gwirionedd: Rhyddhewch Bradley Manning i ddigwyddiad cyfnewid eginblanhigion yn y Bala, gan annog pobl i gymryd pecyn o hadau blodau haul a bod yn rhan o gywaith celf wleidyddol.**

Roedd llawer yn y Bala heb glywed sôn am Bradley Manning neu'n anymwybodol o'i gysylltiadau â Chymru: doedd rhai ddim wedi clywed am Wikileaks hyd yn oed. Restiwyd Bradley Manning yn 2010 ar amheuaeth o rannu'r caswir am ryfeloedd yr UD gyda WikiLeaks, a aeth ymlaen i'w rannu gyda'r byd.

### heddweithredu:

Gall unrhyw un gymryd rhan yn y project: heuwch hedyn blodau haul, tynnuch lun o'r egin pan fydd ychydig fodfeddi o uchder, ac un arall pan fydd yn blodeuo. Yna anfonwch eich ffotograffau, ynghyd â manylion i ddweud ble yn union yn y byd rydych yn byw, at priticodepink@gmail.com.

Cynhelir yr arddangosfa derfynol yn Fort Meade, Maryland, UDA yn ystod achos llys milwrol Bradley Manning. Os hoffech dderbyn hadau, cysylltwch â wiseupforbm@yahoo.com

Cadwch mewn cysylltiad â'r ymgyrch: www.wiseupforbradleymanning.wordpress.com

**Mae papur cefndir dwyieithog am Bradley Manning ar gael gan CND Cymru (cysylltiadau, tud. 10).**

## Henry Richard

***'Mae'r byd yn diflasu ar ryfel. Mae'r gwledydd yn ochneidio o dan faich gwariant milwrol a cathwasanaeth milwrol ac yn ysu am waredigaeth.'***

Yn y gwanwyn, ymunodd CND Cymru ag eraill o bob rhan o Gymru i goffáu 200 mlwyddiant geni Henry Richard AS (1812 - 1888). Cafodd ei eni a'i fagu yn Nhregaron a'i ethol yn AS Merthyr Tudful ym 1868. Cynhaliwyd Ffair Heddwch, a anerchwyd gan Mererid Hopwood a Bruce Kent, ynghyd â nifer o ddigwyddiadau coffa eraill yn Nhregaron a Merthyr. Cynhaliwyd un arall ar lan bedd Henry Richard ym Mynwent Parc Abney yn Llundain. Lansiodd Gwyn Griffiths ei lyfr newydd, *Henry Richard - Apostle of Peace and Welsh Patriot.*

*'Nid oes gan fidog ddawn i ddarganfod y gwir; nid fedd powdwr gwn ddirnadaeth foesol; nid oes gan wn neu dorpido Krupp berthynas neilltuol â chyfiawnder. Y cwbl y gall y rhain ei wneud, os defnyddiwch hwy tan ddydd y farn, yw penderfynu nid pwy* ▶




llun: Wendy Lewis

## Chernobyl – pa bryd, os byth, y dysgwn?

**Bu Côr Cochion ac CND Cymru wrthi'n coffáu 26ain mlwyddiant trychineb niwclear waetha'r byd, y ffrwydrad yng ngorsaf bwer Chernobyl, ar y 26ain o Ebrill.**

Dyma adroddiad Is-gadeirydd CND Cymru, Ray Davies:

Llifodd caneuon heddwch dros yr Ais yng Ngharerdydd, a'r neges oedd 'Dim Chernobyl arall! Dim Fukushima arall!'

Daeth dyn atom a oedd newydd ddychwelyd o ymweliad â Chernobyl lle mae'r ardal waharddedig, yn enwedig y rhannau mwsoglyd, yn dal yn beryglus o ymbelydrol.

Mae Cymru wedi creu dolen gyswllt gref â dioddefwyr Chernobyl – yn enwedig yn Belarus, a lygrwyd gan 90% o'r radio-niwclidau. Mae cannoedd o blant o ardal y gyflafan, llawer ohonynt yn dioddef o gancr a phroblemau meddygol eraill, wedi mwynhau gwyliau achubol a thriniaeth feddygol yng Nghymru.

Chernobyl, ac yn awr, Fukushima – mae'r gwirionedd am bwer niwclear wedi ei osod o'n blaenau, ac eto mae llywodraeth Cymru a gwleidyddion Prydeinig yn dal i gefnogi datblygiad gorsaf bwer niwclear Wylfa B. Dywed pobl Cymru yn groch ac yn glir: Na i Wylfa! Na i Hinkley C!

## Colli swyddi yn ffatri arfau Gwent

Bydd 100 o swyddi'n diflannu o ffatri arfau BAE Systems Glascoed, ger Brynbuga. Mae'r ffatri'n cyflogi 620 o bobl ar hyn o bryd. Mae BAE Systems yn beio mwy o otomeiddio a lleihad yn y galw gan y WA am y toriadau, sydd, meddent, yn hanfodol 'er mwyn creu mwy o werth i gwsmeriaid a'n gwneud yn fwy cystadleuol'.

Yn eironig, yn 2006, mewn ymgais i wneud ei offer lladd yn fwy amgylcheddol gydnaws, cyhoeddodd y cwmni y byddai'n cynhyrchu 'ffrwydron ansensitif' yng Nglascoed. Dydy'r rhain ddim yn ffrwydro'n ddamweiniol a gellir eu storio am gyfnod amhenodol.

◀ *sy'n iawn, ond pwy yw'r cryfaf, y mwyaf medrus, y cyfoethocaf, y mwyaf dygn.'*

**heddweithredu:**

**Mae CND Cymru wedi cynhyrchu papur cefndir rhad ac am ddim, dwyieithog, darllenadwy am Henry Richard gan Tony Simpson. Manylion tud. 10.**

## Pererin Heddwch yng Nghymru

**Wrth i'r Pererin Heddwch Maxim Laithwaite gerdded 1200 o filltiroedd heb ddim arian trwy Brydain ac Iwerddon yr haf yma, gobeithia gynyddu ymwybyddiaeth o Global Truce 2012 sy'n nodi Diwrnod Heddwch Rhyngwladol y CU ar 21ain o Fedi.**

Mae'n disgwyl cyrraedd Caerdydd ym mis Awst a bydd yn edrych am gymorth a chefnogaeth gan ei fod yn dibynnu'n llwyr ar garedigrwydd dieithriaid am fwyd a llety. 'Mae gosod llwyddiant y daith yn nwylo cymunedau a phobl ar hyd y ffordd yn tanlinellu'r ysbryd sydd ei angen ar ein cymdeithasau er mwyn darganfod heddwch. Mae hefyd yn codi cwestiynau pwysig ynglwn â'r berthynas rhwng tlodi a heddwch', meddai wrth CND Cymru.

**heddweithredu:**

**Bydd Max yn cerdded ar hyd Clawdd Offa ac yna ymlaen i Gaerdydd ym mis Awst/ dechrau Medi. Os gallwch helpu gyda llety a chefnogaeth, da chi, cysylltwch ag ef**
**m: 07899 960 221**
**e: peacedaypilgrim@gmail.com**

## Gêm bêl-droed Menywod Israel

**Cafodd nifer o brotestwyr gwrth-Israel eu taflu allan, a gwrthodwyd mynediad i lawer i gêm bêl-droed rhwng Cymru ac Israel yn Wrecsam ar yr 20fed o Fehefin.**

Roedd y protestwyr yn galw sylw at y ffaith bod awdurdodau Israel yn gwrthod fisas i bêl-droedwyr o Balesteina allu teithio i gystadlaethau, yn ogystal â'r cyfyngiadau ar deithio o fewn y Lan Orllewinol a rhyngddi a Gasa. Canolbwyntiwyd hefyd ar y pêl-droediwr Palestinaidd Mahmoud Sarsak, a oedd yn y carchar ar y pryd ond sydd bellach yn rhydd ar ôl cael ei gadw am dair blynedd heb gyhuddiad nac achos llys. Dywedodd Llywydd Ymgyrch Cefnogi Palestinia, Betty Hunter: 'Y boicot chwaraeon yn erbyn De Affrica oedd un o'r ffyrdd mwyaf effeithiol o ddiarddel y wlad honno a datgelu ei threfn Apartheid a'r modd y gwadai hawliau dynol.
'Rydym yn cefnogi boicot chwaraeon rhyngwladol yn erbyn Israel nes iddi ufuddhau i gyfraith ryngwladol a rhoi'r gorau i feddiannu a gormesu pobl Palesteina.'

**heddweithredu:**

www.occupiedpalestine.wordpress.com
mwy o luniau: http://tinyurl.com/csv6cau

# Fedrwch chi ddim lladd yr ysbryd

## *Caerdydd i Freudeth 1982*

**Ym 1981, esgorodd yr orymdaith o Gaerdydd i Gomin Greenham, i brotestio yn erbyn lleoli taflegrau niwclear Cruse yr UD yno, ar Wersyll Heddwch y Menywod ger USAF Comin Greenham. Yr haf canlynol, penderfynodd rhai o fenywod Greenham – Menywod dros Fywyd ar y Ddaear – fynd â'r brotest i un arall o ganolfannau'r UD, ym Mreudeth y tro hwn, ar lannau gorllewinol Cymru.**

*Mae Thalia Campbell yn cofio:*



Llun: Ian Campbell

Cerddodd mwy na 125 o fenywod a phlant, yn cynnwys llawer o daith gerdded 1981 i Greenham, o Gaerdydd i orsaf yr UD ym Mreudeth. Aeth y daith â ni trwy gymoedd glo de Cymru, gan igam-ogamu i fyny ac i lawr i ochrau'r cymoedd, a chawsom groeso cynnes mewn capeli a neuaddau pentref gan gynghorau lleol, undebwyr llafur, mudiadau menywod, pleidiau gwleidyddol a grwpiau heddwch. Fe'n croesawyd i gapel Ystradgynlais, cartref un o selogiaid Greenham, Eunice Stallard, a chawsom groeso emosiynol yn Neuadd Gymuned Onllwyn gyda chanu, areithio, gweddïo a bwyd.

Cyrhaeddodd grwp ohonom o flaen llaw (mewn lori ddodrefn) i flocedio clwydi Breudeth, a daliodd y plismon lleol i fyny â ni ar ei feic.
Yna, ymddangosodd brigâd dân USAF a dechrau gosod pibelli dwr yn barod i'n golchi ymaith. Meddai'n plismon lleol, 'Byddaf yn eich restio os gwnewch chi hynny; dydyn nhw ddim ar dir Americanaidd, maen nhw yng Nghymru'. Tynnodd yr Americanwyr yn ôl.

Daliodd yr orymdaith a'r cefnogwyr i fyny â ni ar ôl rali fawr ac areithiau ar y traeth. Cyrhaeddodd gorymdaith arall o Aberystwyth. Codwyd baneri, cafodd gwe ei gweu ar draws y clwydi, a chafwyd areithiau a cherddi; roedd deigryn yn llygaid y plismyn, hyd yn oed. Roedd cyfle i bawb ddweud eu dweud. Megis yn nhraddodiad y Diwygiad, daeth y cwrdd i ben â phawb mewn dagrau. Cododd CND Cristnogol groes bren ar y fin y ffordd gyferbyn, a phlannodd eraill goeden geirios.

Am bedair awr, cadwynodd 14 o fenywod eu hunain wrth yr angor milwrol anferth y tu allan i'r orsaf, a chanu a llafarganu.

Yn y cyfamser, postiodd grwp bach o fenywod neges ym mlwch llythyrau'r orsaf i Ronald Reagan, yn gresynu'r ffaith ei fod ar ei wyliau yn lle yn nhrafodaethau'r CU ar ddiarfogi. Roedd yn rhaid i staff yr UD ddringo dros y waliau â'u holl eiddo er mwyn cael mynediad, gan ein bod wedi blocedio'r unig fynedfa. Bob shifft, byddent yn cario dwy rîl o dâp cyfrifiadur prif-ffrâm allan.

Ar ôl pedwar diwrnod, penderfynodd yr heddlu ein symud, gan osod ein sachau cysgu â'n heiddo ar y llain llydan gyferbyn â'r orsaf, a'n cario ninnau yn hynaws, a'n gollwng yn ofalus ar ein sachau cysgu.

***Roedd Cyfleuster y Llynges, Breudeth (NAVFAC Brawdy)** ar arfordir gorllewinol Sir Benfro yn un o nifer o orsafoedd SOSUS (System Clustfeinio ar Sain) yr UD yn monitro cadwyn gynyddol o feicroffonau tanfor gyda'r nod o ganfod a dilyn trywydd llongau tanfor Sofietaidd ym Môr Iwerydd a thu hwnt. Ym 1993, pan gafodd ymchwilydd morfilod recordiadau o gân morfilod gan y ganolfan, dywedwyd wrtho y gallai technegwyr Llynges yr UD ddilyn morfil unigol am 40 diwrnod; erbyn hynny, byddai'r morfil wedi cyrraedd Bermuda.

**Mwy o straeon Greenham:**
http://tinyurl.com/cle3f5o
**Breudeth 1981:** http://tinyurl.com/buae5yq

## Ta-ta Trident?

**Cafodd cynllun gan CND yr Alban ar gyfer diarfogi taflegrau Trident o fewn dyddiau o sicrhau annibyniaeth, a gwaredu'r Alban o arfau niwclear o fewn dwy flynedd, ei gymeradwyo gan arbenigwyr rhyngwladol blaenllaw ar arfau niwclear[1] a'i gefnogi gan weinidogion llywodraeth yr Alban.**

Mae *Disarming Trident – A practical guide to de-activating and dismantling the Scottish-based Trident nuclear weapon system'*[2] yn egluro sut y gellid galw pob llong danfor dosbarth Vanguard â'i thaflegrau Trident yn ôl i ganolfan y llynges yn Faslane a diarfogi eu hergydion o fewn wythnos. O fewn wyth diwrnod, gellid fod wedi analluogi'r holl daflegrau niwclear. O fewn pedair blynedd, gallai pob un o'r 220 o ergydion niwclear o Faslane a stordy arfau cyfagos Coulport ar Loch Long fod wedi cael eu symud o'r Alban, a'u datgymalu.

Mae mwyafrif clir yn yr Alban yn gwrthwynebu cynlluniau llywodraeth San Steffan i gadw Trident.

'Bron 60 mlynedd wedi'r prawf niwclear Prydeinig cyntaf ym mis Hydref 1962, rydym am y tro cyntaf mewn sefyllfa i allu ystyried o ddifrif y camau ymarferol y bydd yn rhaid eu cymryd i ddatgymalu Trident', meddai cyd-drefnydd CND yr Alban, John Ainslie. 'Gallem, o fewn diwrnodau, ddileu'r perygl y gellid byth ddefnyddio Trident mewn dicter. O fewn dwy flynedd, gallai'r Alban fod yn rhydd o bob arf niwclear, a dwy flynedd yn ddiweddarach gallai'r holl ergydion fod wedi cael eu datgymalu'n llwyr.'

Byddai datgymal Trident yn arbed llywodraeth San Steffan rhag gwastraffu £100 biliwn ar arfau niwclear dros y 50 mlynedd nesaf. Does yna unlle yn Lloegr na Chymru lle gellid adleoli Trident yn llwyddiannus ac yn ddiogel.[(3)]

**(1) Y rheini sy'n cymeradwyo adroddiad CND yr Alban fel dogfen hygred:**

Bruce Blair: arbenigwr blaenllaw ar oedi gallu lluoedd niwclear i danio, a chyn-swyddog rheoli lansio ar gyfer taflegrau niwclear Minuteman yr UD.

Richard Garwin: arbenigwr arfau niwclear o'r UD a ddyluniodd y bom-H cyntaf

Yr Athro Frank von Hippel: cyn-gynghorydd niwclear yn y Ty Gwyn

Yr Athro William Walker: Prifysgool St Andrews

Yr Athro Malcolm Chalmers: Cyfarwyddwyr Polisi Amddiffyn yn y Sefydliad Brenhinol y Gwasanaethau Unedig ar gyfer Astudiaethau Amddiffyn a Diogelwch.

**(2) Disarming Trident**

http://tinyurl.com/c7zcng6

**(3)Trident Nowhere to Go**

http://tinyurl.com/c7zcng6

ar gael hefyd ddi wrth CND Cymru – gweler Cysylltiadau, tud. 2; CND yr Alban www.banthebomb.org

## Penblwydd Hapus i Wersyll Heddwch Faslane

Cynhaliwyd gweithredoedd uniongyrchol yn cynnwys gwarchae, teithiau cerdded, cynyrchiadau theatr, a gollwng baneri dros gyfnod o 30 diwrnod i ddathlu deng mlwyddiant ar hugain sefydlu Gwersyll Heddwch Faslane.

Mewn gweithred gyhoeddus ar ddechrau'r 30 Diwrnod o Weithredu Uniongyrchol, gollyngodd tri o wersyllwyr heddwch Faslane faner yn dweud'*Nuclear Disarmament If Not Now, When?*'o fraich craen Clydebank yn Glasgow, ac aros ar y craen trwy'r dydd.

**Gwybodaeth am yr ymgyrch 30-diwrnod a digwyddiadau: faslane30@riseup.net**

## Arian am Ddim

**Yn ystod y dathliadau penblwydd, tanlinellodd Gwersyll Heddwch Faslane warth y cytundeb £1.1 biliwn a roddwyd i Rolls Royce am waith ar adweithyddion llongau tanfor niwclear Prydain a'r cytundeb £350 miliwn a roddwyd i BAE Systems, Babcock Marine, a Rolls-Royce mewn perthynas â dylunio unrhyw olynydd i Trident.**

Mae'r gwersyll wedi condemnio'n hallt y ddadl orsymleiddiedig y dylai swyddi yn y cylch o anghenraid gael blaenoriaeth dros ddyletswyddau o dan gytundebau rhyngwladol a dyngarol, a materion yn ymwneud â diogelwch cyhoeddus.

Byddai'r 3,000 o swyddi yr honnir y ceid eu creu yn Faslane pe penderfynid cael olynydd i Trident yn 2016 yn costio mwy na £100 biliwn i'r trethdalwr, gyda phob swydd yn costio mwy na £330,000, a bwrw mai swyddi newydd fydden nhw, nid rhai wedi eu trosglwyddo o gyfleusterau eraill y Weinyddiaeth Amddiffyn mewn llefydd fel Devonport.

Yn ôl Rolls-Royce, bydd eu cytundeb £1 biliwn yn creu 300 o swyddi newydd, sy'n golygu y bydd pob swydd yn werth £30 miliwn. At hynny, gan ddefnyddio amcangyfrifon ceidwadol y llywodraeth o gost olynydd i Trident, bydd cyfraniad blynyddol yr Alban o £153 miliwn yn peryglu rhyw 3,000 o swyddi sector cyhoeddus os cymeradwyir y cynlluniau. I lawer ohonom, mae'r sôn am swyddi yn amherthnasol.

Mae arfau niwclear yn anfoesol, yn anghyfreithlon ac yn rhan o drefn fyd-eang anghyfiawn. Mae eu bodolaeth fel rhan o strategaeth amddiffyn dderbyniol yn dynodi diffyg moesoldeb a'r trais sydd wrth graidd ein cymdeithas. Mae lleoli'r arfau hyn, â'u gallu i niweidio bywyd ar y blaned hon am byth, ddim ond 30 milltir o ddinas fawr Glasgow, ac eto gannoedd o filltiroedd o dde-ddwyrain Lloegr, yn dweud y cwbl am ddifaterwch y llywodraeth Brydeinig tuag at fywyd ac, yn wir, tuag at bobl yr Alban.

## Gallant redeg ond fedran nhw ddim cuddio

**Wrth i'r profion ysbïo a thargedu ar offer marwol awyrennau di-beilot 'Watchkeeper' y Weinyddiaeth Amddiffyn (WA) fynd yn eu blaen uwchlaw Ceredigion, Powys, Gogledd Penfro a Shir Gâr, cynhaliodd Canolfan Rhyfel Awyr y WA symposiwm ar awyrennau di-beilot yn ddiweddar, y tu ôl i weiren bigog Academi Amddiffyn Shrivenham yn Lloegr.**

Er mai'r thema gyffredinol oedd sut y gallent helpu 'Ymgyrchoedd Hydwythedd y DU', cafwyd diweddariad gan uwch-swyddogion milwrol ar hynt y rhaglenni 'Reaper' a 'Watchkeeper' Prydeinig cyfredol hefyd.

Hyd yn hyn mae rhaglen awyrennau di-beilot Prydain wedi hedfan 34,000 o oriau, wedi tanio 281 o daflegrau Hellfire, ac wedi lladd 1,800 o bobl.

Mae'r Gyfraith Gyngwladol sy'n llywodraethu ymddygiad mewn rhyfel yn gorseddu'r egwyddor o wahanu, sef bod partïon mewn gwrthdaro i fod i wahaniaethu rhwng ymladdwyr a sifiliaid, ac eithrio sifiliaid rhag gweithredoedd treisgar. Y dystiolaeth o Pakistan a Phalesteina yw bod niferoedd mawr o sifiliaid wedi cael eu hanafu.

Pwysleisia Noel Sharkey, Athro Deallusrwydd Artiffisial a Roboteg ym Mhrifysgol Sheffield: "Po bellaf i ffwrdd y byddwch, yr hawsaf yw lladd . . . mae'r ffaith hon yn newid natur rhyfel yn ddramatig.'

Wedi protest swnllyd gan Bristol Against the Arms Trade a Bath Stop The Drones ym Mryste, a chyfarfod cyhoeddus gorlawnyng Nghaerfaddon, bu'n rhaid i gynhadledd Clarion Events UAV (Drone) – a oedd i fod i gael ei chynnal yn Assembly Rooms Caerfaddon – gael eu symud allan o'r dre i berfedd gwlad Wiltshire.

### heddweithredu:

**dysgwch fwy:**

www.dronewarsuk.wordpress.com

**Heddwch a Chyfiawnder Bro Emlyn:**

www.bepj.org.uk

www.thinkdefence.co.uk/2012/06/watchkeeper-then-and-now

**Cymdeithas y Cymod:**

www.cymdeithasycymod.org.uk/

Gwariwyd mwy na £21 miliwn o arian trethdalwyr ar ddatblygu'r safle profi yn Aberporth. Costiodd awyrennau di-beilot Watchkeeper yn unig fwy nag £800 miliwn. Uchafswm o 35 o bobl (yn cynnwys swyddogion diogelwch) a gyflogir ar y safle. **Da chi, cysylltwch â'ch cynrychiolwyr etholedig (gwel. tud. 10 am gyfeiriadau) ac awgrymu ffyrdd doethach o wario'n harian – mynd i'r afael o ddifri â chynhesu byd-eang, dysgu ffyrdd newydd o ddatrys a rhagatal gwrthdaro yn ddi-drais, a buddsoddi mewn byd tecach a mwy cyfiawn, i enwi dim ond tri.**

## Ynys Jeju

**Mae Llywodraeth De Korea yn parhau i adeiladu canolfan i'r llynges ym mhentref pysgota Gangjeong ar Ynys Jeju.**

Fel y nodwyd yn flaenorol, mae'r ynys wedi ei lleoli'n strategol yng Nghulfor Korea. Byddai'r posibilrwydd y gallai Jeju fynd yn darged milwrol pe ceid unrhyw wrthdaro arfog yn y parthau anwadal yma yn cynyddu'n aruthrol gydag adeiladu canolfan i'r llynges. Ers cyhoeddi'r cynlluniau bum mlynedd yn ôl, mae 94% o drigolion Gangjeong wedi pleidleisio yn ei erbyn a defnyddio pob modd democrataidd posibl i rwystro'r adeiladu. Ychydig o sylw manwl a roed i'r protestiadau yn y cyfryngau.
Mae tri safle Treftadaeth Naturiol Fyd-eang UNESCO o amgylch Gangjeong a naw Parc Daearyddol UNESCO, ac mae'r ynys ei hun yn un o Warchodfeydd Biosffer y Byd.
Mae'r gwaith adeiladu'n cyflymu beunydd, gyda gwely'r môr ac ecosystemau cwrel yr ynys eisoes yn cael eu tyrchu i fyny.

Mae yna ddealltwriaeth eang y bydd canolfan lynges Ynys Jeju yn harbwr galw i longau milwrol sy'n rhan o system amddiffyn taflegrau balistig yr UD.
Nid dim ond problem amgycheddol neu heddwch mo hon, ond mater o hawliau dynol a rhyddid i lefaru. Mae cefnogaeth gref i'r ymgyrch ymhlith yr holl gymuned leol, a chafodd llawer eu restio. Mae'r heddlu a gweithwyr adeiladu hyd yn oed wedi ymosod ar aelodau hyn o'r gymuned, sy'n ffurfio cyfran helaeth o'r gweithredwyr.

### heddweithredu:

**Mae'r gweithredydd heddwch o Drefyclo, Angie Zelter, a enwebwyd ar gyfer Gwobr Heddwch Nobel, ymhlith y rheini a gafodd eu restio mewn protestiadau sy'n parhau yn erbyn adeiladu'r ganolfan newydd. Mae ar gael i siarad am yr ymgyrch. Cysyllter ag Angie ar:**

**e: reforest@gn.apc.org**
**t: 01547 520 929**
**www.savejejunow.org www.facebook.com/groups/UKJejuGangjeong**

## CND yn galw am barth di-niwclear yn y Dwyrain Canol

**Cynhaliwyd Cynhadledd Pwyllgor Paratoi'r Cytundeb Atal Ymlediad (CAY) niwclear 2012 yn erbyn cefndir o bryder ynglyn â thynged Cynhadledd Dwyrain Canol 2012, yr argyfwng niwclear gydag Iran, a chanlyniad etholiadau yn yr Unol Daleithau.**

Cyflwynwyd negeseuon personol gan gefnogwyr CND i gadeirydd y gynhadledd, y Llysgennad Peter Wolcott, yn galw ar gynrychiolwyr i gymryd camau go iawn tuag greu Parth Heb Arfau Dinistr Torfol (PHADT) yn y Dwyrain Canol a symud ymlaen ymhellach tuag at ddiarfogi byd-eang. Pleidleisiodd 189 o wledydd yng Nghynhadledd Arolwg y CAY 2010 o blaid symud tuag at sefydlu PHADT yn y Dwyrain Canol. Y canlyniad oedd trefnu cynhadledd garreg-filltir a gynhelir yn ddiweddarach eleni gyda'r nod o ddwyn ynghyd holl wledydd y Dwyrain Canol a chychwyn ar drafodaethau wyneb-yn-wyneb gyda'r nod o wahardd arfau niwclear ac Arfau Dinistr Torfol eraill yn y Dwyrain Canol.

Sefydlwyd Parthau Heb ADT mewn rhannau eraill o'r byd, fel De America ac Affrica. Does yr un lle na'r un amser pwysicach na'r Dwyrain Canol ar yr adeg bresennol i sicrhau bod hyn yn digwydd.

**Trwy anwybyddu eu hoblygiadau i ddiarfogi, a pharhau i foderneidio eu harfogaethau niwclear, mae'r gwledydd arfau niwclear yn ysgogi ymlediad pellach ac yn gwneud y byd yn lle mwy peryglus.**

## Maes awyr Shannon

**Mae gwylnosau protest rheolaidd Shannonwatch yn parhau yn Shannon yn Iwerddon.**

Ar gyfartaledd, mae 600 o luoedd arfog Americanaidd yn glanio bob dydd ym maes awyr Shannon, a ddefnyddiwyd hefyd fel man glanio canol-taith gan awyrennau caethgludo'r CIA a byddin yr UD ar eu ffordd i Irac ac Afghanistan ac yn ôl ers degawd bron.

Heb ganiatâd pobl Iwerddon, mae defnydd milwrol yr UD o Shannon ac awyrofod Gwyddelig yn costio mwy na •4 miliwn ewro y flwyddyn i wladwriaeth Iwerddon mewn gwasanaethau heddlu yn y maes awyr, Lluoedd Amddiffyn i ddarparu diogelwch ychwanegol, a nawdd traffig awyr i luoedd yr UD.

Dydy Iwerddon ddim yn aelod o NATO ond mae'n cefnogi'r wlad fwyaf militareiddiedig ar y ddaear, yr UD, gyda maes awyr Shannon yn helpu i gludo arfau a milwyr i barthau rhyfel. Pe bai cyrch i oresgyn Iran, mae'n sicr bron y byddai Shannon ac Iwerddon yn rhan o hynny.

Yn ôl Shannonwatch, yr unig beth mae pobl Iwerddon wedi ei ddysgu yw 'mae'r cwbl a gynigir iddynt gan yr elit gwleidyddol yw rhyfel parhaol a llymder economaidd parhaol.'

### heddweithredu:

**Dysgwch fwy a chefnogwch**
**www.shannonwatch.org**
**www.facebook.com/pages/Shannonwatch/268685181500**
**Cynghrair Heddwch a Niwtraliaeth Iwerddon: www.pana.ie**

## Newyddion o Fukushima

**Ar Fehefin 29, amgylchynnodd mwy na 150,000 o bobl breswylfa swyddogol Prif Weinidog Japan i apelio yn erbyn ailgychwyn unrhyw un o'r 50 o orsafoedd pwer niwclear Japan sydd ar gau dros dro i'w harolygu neu eu hatgyweirio.**

Adroddodd ymchwiliad annibynnol gan senedd Japanol yn yr haf bod yr argyfwng yng ngorsaf niwclear Fukushima Rhif 1 o waith llaw dyn yn hytrach nag yn drychineb naturiol ; yn y bon, canlyniad system reoliadol lwgr ydoedd, a ganiataodd i gwmni Tokyo Electric Power ohirio mesurau diogelwch hanfodol. Mae pobl yn Fukushima sy'n methu gadael yr ardal hyd yn oed pe baent am wneud, am resymau ariannol neu deuluol, yn cael eu monitro gan Ysgol Feddygol Ardal Fukushima.
Hyd yn hyn, darganfuwyd cesiwm ymbelydrol yn samplau dwr 141 o fabanod a phlant ifanc yn Ardal Fukushima: roedd y cwbl wedi bwyta ffrwythau a llysiau a dyfwyd yn lleol. Ceir adroddiadau hefyd am blant yn datblygu abnormaledd y thyroid.*
Maent yn parhau i losgi rwbel ymbelydrol yn Fukushima, Tokyo, Chiba, a rhai ardaloedd eraill. Rheolwyr diogelwch Fukushima Daiich a gorsafoedd pwer niwclear eraill yw Magna BSP, cwmni milwrol o Israel.

Mae gweinidogion ynni'r Undeb Ewropeaidd wedi dechrau ystyried canlyniadau 'profion straen' a wnaed ar yr 147 o adeithyddion niwclear a geir yn Ewrop.



Carlos Latuff

* O'i gymharu ag archwiliadau o 120,000 o bobl yn Gomel (ger Chernobyl), 1991-96, mae gan Fukushima lefelau 36-gwaith uwch o abnormaledd y thyroid na Gomel. Diolch i Makiko Sato am y wybodaeth. Gweler hefyd: www.tinyurl.com/bregnlh

### heddweithredu:

**Dywedwch wrth eich cynrychiolwyr etholedig bod dyfodol cynaliadwy, gwell yn bosibl. Nid pwer niwclear yw'r ateb. Greenpeace, *Critical Review of the EU Stress Test Performed on Nuclear Power Plants*: http://tinyurl.com/cmmvmsl**

# 'Syndrom China' newydd

**Term o'r 1970au oedd 'syndrom China' yn disgrifio trychineb pan fyddai adweithydd niwclear yn toddi i lawr i mewn i gramen i ddaear – 'yr holl ffordd i China'. Wrth i gynnig newydd am Wylfa o China gael ei ystyried, efallai bod yr ymadrodd yn magu ystyr newydd – toddiad trychinebus atebolrwydd democrataidd.**
***Mae Phil Steele o PAWB (Pobl Atal Wylfa B) yn nodi mai democratiaeth ac eglurder sydd wedi dioddef gyntaf yn y cyrch am y 'niwclear newydd'.***



*Gruff Rhys yn perfformio Hanner Cant - ar rhaglen S4C.*

Gadawyd Ynys Môn mewn gwactod od gan ymadawiad sydyn Horizon o broject ynni niwclear cythryblus Wylfa B ym mis Mawrth 2012. Roedd cynghorwyr sir syfrdan fel pe baen nhw'n synnu nad oedd gan yr ymerawdwr hwn ddim dillad (mae'n amlwg nad ydyn nhw'n darllen *Heddwch*). Cyn bo hir, wrth gwrs, dyma'r peiriant PR yn ailddechrau rhygnu. Byddai'r Rwsiaid yn ein hachub! 'Na', meddai Rosatom, does dim o'r fath gynlluniau. Ym Mehefin cyhoeddwyd y deuai China i'r adwy: Corfforaeth Dechnoleg Pwer Niwclear wladol China, hwyrach, mewn cynghrair anfad â Toshiba-Westinghouse, neu'n fwy tebygol efallai, GE Hitachi. Ar y 7fed o Orffennaf, cadarnhawyd fod y China Guangdong Nuclear Power Holding Co wedi gwneud cynnig am Horizon, mewn cysylltiad ag Areva, y cwmni Ffrengig sy'n gyfrifol am y llanast diarhebol yn Flamanville yn Normandi. Mae gwactod niwclear Ynys Môn a'r broses gynnig tra aneglur yn tanlinellu pwer byd-eang corfforaethau anatebol a'r ffordd y maent yn tra-arglwyddiaethu ar lywodraethau gwan a gwasaidd. Dydy'r diwydiant niwclear a democratiaeth genedlaethol neu leol erioed wedi cydfyw'n esmwyth.

### Gwadu democratiaeth

Cadarnhaodd adroddiad diweddar – gan gomisiwn annibynnol a sefydlwyd gan senedd Japan – mai gwaith llaw dyn oedd trychineb 2011 yn Fukushima 1, canlyniad system reoliadol lwgr. Roedd asiantaeth berthnasol y llywodraeth wedi methu gorfodi'r darparydd, Tokyo Electric Power Co (TEPCO), i weithredu mesurau diogelwch a gawsai eu hargymell.
A ddysgwyd gwersi? Gwladolwyd TEPCO gan lywodraeth bresennol Japan ym mis Mai 2012 ac mae honno bellach yn anwybyddu gwrthwynebiad cyhoeddus angerddol ac yn ailgychwyn ei hadweithyddion niwclear. Hawliau dynol yw'r hyn mae'r protestwyr yn galw amdanynt: amddiffyniad yn erbyn ymbelydredd, gofal iechyd, diogelwch, a thegwch i ddioddefwyr y drychineb. Mae gwleidyddion a darparwyr pwer Japan â'i bysedd yn eu clustiau, yn fyddar i brotest y cyhoedd.

Yn India, mae protestiadau parhaus yn erbyn rhaglen niwclear newydd y wlad wedi canolbwyntio ar orsaf Kudankulam yn Tamil Nadu a safle anferth chwe-adweithydd a gynllunir ar gyfer Jaitapur, 400 km i'r de o Mumbai. Mae'r llywodraeth ganol a llywodraethau taleithiol wedi tramgwyddo egwyddorion sylfaenol democratiaeth. Cafodd tir ei gipio'n orfodol, heb ystyried y boblogaeth leol a'r amgylchedd. Mae'r heddlu wedi saethu at wrthdystwyr, cafodd torfeydd eu restio, a chafodd asedion grwpiau gwrth-niwclear eu rhewi.

### Llygredd llywodraethol

Ers 2003, bu'r cyrch i adeiladu gorsafoedd niwclear newydd ym Mhrydain â'i wreiddiau mewn mesurau hynod wrth-ddemocrataidd. Darganfu adroddiad ym mis Ionawr (gan Ron Bailey a Lotte Blair ar gyfer Unlock Democracy ac ACE) dystiolaeth glir o lygredd llywodraethol. Roedd y wybodaeth yn y Datganiad Polisi gwreiddiol, a gyflwynwyd i weinidogion ac i'r Senedd, yn rhannol ac yn wallus. Nid oedd wedi ei seilio ar yr holl dystiolaeth oedd ar gael; y bwriad oedd cefnogi penderfyniad gwleidyddol a wnaed eisoes i godi gorsafoedd newydd.

I bob diben, dyma *'Dodgy Dossier'* arall o waith llywodraeth Blair – gyda Thorïaid Cameron a'r gwrthgilwyr niwclear Democrataidd Rhyddfrydol hwythau'n dilyn, gan anwybyddu unrhyw dystiolaeth anghyfleus i'r gwrthwyneb. Roedd yr 'ymgynghori' cyhoeddus yn dwyll, gan bod y ffug-osodiad bod 'gorsafoedd niwclear newydd yn angenrheidiol' yn trechu pob her arall. Ar Ynys Môn, buan y diflannodd democratiaeth hefyd. Roedd y Cyngor Sir fel pe bai'n cynrychioli'r ymgeiswyr – Horizon Mark 1 – nid yr etholwyr. Daeth y ffin rhwng gweithgareddau'r consortiwm preifat hwn a chorff cyhoeddus etholedig yn fwyfwy anodd ei chanfod. Cynhaliodd y Cyngor sesiynau caeëdig gyda Horizan tra'n gwneud ei orau i ymylu a gwawdio'r gwrthwynebwyr.

### Dweud ein dweud

Felly, pa newydd am yr ymgyrch? Dydy PAWB ddim wedi gorffwys ers i Horizon dynnu allan. Ym mis Ebrill, siaradodd yr ymgynghorydd ynni amgen Neil Crumpton ar ran PAWB yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynyddol RWE (rhan o gonsortiwm Horizon Mark 1) yn Essen, yr Almaen. Ym mis Mai, ymgyrchodd Dr Gerry Wolff, un arall o hoelion wyth PAWB, yn effeithiol yn y wasg gyllidol ynglwn â ffolineb buddsoddi mewn ynni niwclear.
Ym mis Mehefin, lansiodd y Dr Carl Clowes gynllun economaidd amgen ar gyfer Ynys Môn, gan nodi 2,500 i 3,000 o swyddi amgen – cam positif a ddenodd ddiddordeb mawr. Parheir â'r ddadl yn Eisteddfod Genedlaethol Bro Morgannwg mewn cyflwyniad ar y Maes Gwyrdd fore Mawrth Awst 7fed am 11am.

Yn Eisteddfod yr Urdd (a noddwyd gan Magnox!), bu cadeirydd PAWB, Dylan Morgan, yn annerch digwyddiad *'Callia Carwyn'* a drefnwyd gan Gymdeithas yr Iaith. 'Callia, da ti' oedd y neges i'n Prif Weinidog – ond prin yr effeithiodd lawer arno, gyda'i ddatganiadau mwy cywilyddus byth ynglwn ag olynydd i Trident yn fuan wedyn. Felly, yn yr Eisteddfod Genedlaethol, yr un fydd ein neges i Carwyn: dim arfau niwclear, a dim gorsafoedd pwer niwclear. Bydd PAWB yn annerch rali y tu allan i Babell Heddwch CND Cymru am 11.30am Awst 6ed.

**Nid dim ond ein hiechyd a'n diogelwch mae project Wylfa yn eu bygwth. Yr unig ffordd y gall unrhyw gonsortiwm lwyddo i wthio'r maen yma i'r wal yw drwy sathru ein hawliau sifil dan draed. Ein gorchwyl ni – ac eiddo Llywodraeth Cymru, does bosib – yw amddiffyn ein democratiaeth.**

## Byw'r Freuddwyd

*Meerkat* yw Heather Summers a Miranda Betts o Gei Newydd, ar y ffidil, cajon, mandolin, ffliwt harmonig, berimbao, gitâr, offerynnau taro a lleisiau.

Ar Living the Dream maen nhw'n canu a chwarae eu ffordd drwy naw trac arbennig yn ymdrin â charu, dyheu a mynd ati i fwynhau bywyd a'r byd o'n cwmpas.Mae Meerkat yn cymysgu deunydd acwstig gwreiddiol â churiadau rap a dawns eclectig, gyda geiriau ac ysbrydoliaeth gerddorol sy'n dod yn syth o'r galon.

www.meerkatmusic.org/shop.htm
t: 01559 362 082
e: mail@meerkatmusic.org

## Caneuon diddorol

**Mae Camilla Cancantata, cerddor cymunedol sy'n cyfansoddi a byr-fyfyrio, wedi cynhyrchu CD egnïol, pryfoclyd a myfyrgar yn cynnwys llawer o'i chyfansoddiadau diweddaraf.**

Mae Camilla'n canu ac yn cyfeilio iddi hi'i hun ar yr acordion a'r piano. Casgliad o 26 o ganeuon crafog a ffraeth yw *Songs for Interesting Times* sy'n ymdrin â phynciau mor amrywiol â'r 'prawf Prydeindod', lein olchi, cân y Masnachwr Arfau, a chwestiynau i'w gofyn i yrrwr 4x4 trefol. Mae 'Ballad of the Maytime Mermaids' yn adrodd stori Tri Trident, a gafwyd yn ddieuog ar ôl taflu gwerth £80,000 o gyfrifiaduron ac offer yn gysylltiedig â Trident i Loch Goil.

**Gellir lawrlwytho unrhyw rai o'r traciau ar Songs for Interesting Times yn www.camillacancantata.bandcamp.com**

**Mae'r CD ar gael drwy'r post. Anfonwch siec am £10.00 (yn cynnwys cludiant) yn daladwy i Camilla Saunders ati yn 6 Church Street, Trefyclo, Powys LD7 1AG**
**e: camilla@littleweed-music.org**

## Deallusion a Thaflegrau

**Cofiant Joseph Rotblat**

**Y ffisegydd Joseph Rotblat oedd un o'r ffisegwyr cyntaf i weithio ar y Bom, ac un o'r ychydig wyddonwyr a ddylanwadodd ar syniadau llywodraethau am ddiarfogi niwclear.**

Ar ôl wynebu degawdau o rwystredigaeth, a llif o sarhad nawddoglyd gan wleidyddion a sylwebyddion blaenllaw, aeth yn arwr i lawer o ffisegwyr fel – chwedl teitl priodol Andrew Brown – 'ceidwad y gydwybod niwclear'.

Goresgynnodd Joseph Rotblat dlodi a gwrth-Semitiaeth i fynd yn ffisegwr niwclear, yn aelod allweddol o'r tîm Prydeinig fu'n gweithio ar y bom atomig ym Mhrydain, a gyda Phroject Manhattan UDA. Roedd yn arswydo fod bomiau atomig wedi cael eu defnyddio yn erbyn pobl Japan ac aeth yn ymgyrchydd gwrth-niwclear cynnar. Mae'r llyfr yn digrifio'i weithgareddau wedi'r rhyfel dan gysgod rhaglen niwclear Prydain, ei gyfarfyddiadau cyntaf â gwleidyddion a'r cyfryngau, ▶ ◀ datgelu peryglon alldafliad ymbelydrol, a'i gyfeillgarwch gyda Bertrand Russell.

Dengys Brown sut y bu i'r grwp gwrth-niwclear 'Pugwash' yr helpodd Rotblat i'w ffurfio, sefydlu dolen gyswllt gudd werthfawr a hwylusodd y cyfarfod cyntaf rhwng Gorbachev a Reagan.

Yn y cofiant cyflawn cyntaf hwn i Joseph Rotblat yn seiliedig ar fynediad i'w holl bapurau preifat, mae Andrew Brown yn arddangos ei edmygedd dwfn o'i destun.

***Keeper of the Nuclear Conscience: The Life and Work of Joseph Rotblat*****Andrew Brown 2012 OUP £18.99 (ISBN 9780199586585)**


## Be goblyn?

**Y gyfrol fechan, hardd hon yw gyntaf o'r *Chronicles of Wastwater*, a sgrifennwyd ac a ddarluniwyd gan yr artist a'r ymgyrchydd gwrth-niwclear o ardal y llynnoedd yn Lloegr, Marianne Birkby.**

Mae'r stori hon a'i lluniau bendigedig yn archwilio perthynas Wastwater yn Cumbria â'r diwydiant niwclear a Sellafield, ac yn amau callineb adeiladu gorsafoedd newydd pan fo dim ond oeri'r gwastraff niwclear presennol yn gofyn 4 miliwn galwyn o ddwr ffres bob dydd. Amlinellai adroddiad gan lywodraeth Norwy ganlyniadau posibl atal dwr i'r tanciau oeri yn Sellafield fel trychineb 50-gwaith maint Chernobyl. Yr Ebrill hwnnw, ataliwyd y cyflenwad dwr i danciau gwastraff hylif lefel-uchel, gan achosi sefyllfa a ddisgrifiwyd fel 'oriau oddi wrth drychineb'.Ysbrydolwyd Marianne i lunio *The Wastwater Gnomes* gan daith gerdded noddedig o gwmpas Wastwater i godi arian ar gyfer plant sy'n cael eu geni yn awr yn dioddef effeithiau trychineb Chernobyl fwy nag ugain mlynedd yn ôl.Meddai Marianne, sy'n ymgyrchu i atal claddu gwastraff ymbelydrol yn Cumbria **(gweler: www.mariannewildart.wordpress.com e: rafl@mariannebirkby.plus.com** ): 'Mae ar y diwydiant a'r wladwriaeth ddyletswydd i Cumbria i fuddsoddi pob ymdrech, amser ac arian mewn gofalu am y gwastraff sy'n bodoli yma eisoes yn hytrach na gorfodi adweithyddion niwclear newydd a llawer mwy peryglus ar Cumbria.'Yn gynharach eleni, trefnodd brotest **'Beatrix Potter' a 'Guto Gwningen' yn erbyn y Domen Wastraff Niwclear,** pan synnodd twristiaid yn ymweld â Hawkshead i weld cwningod teirclust yn crwydro o gwmpas gyda Beatrix Potter – mewn siwtiau bio-beryg.

***The Wastwater Gnomes - Field Sketches and Notes* Marianne Birkby 2009**
**ISBN 978095714850 5**
**WildArt Books, £23.87, oddi wrth www.blurb.com/bookstore/detail/2945386**

## O Hiroshima i Fukushima



**Ffrwydrwyd bom niwclear (â'r llysenw 'Little Boy') ryw 600 meter uwchlaw Hiroshima am 8.15 ar y 6 Awst 1945 ... roedd yr ail un, dros Nagasaki dridiau yn ddiweddarach, yn fom plwtoniwm, a alwyd yn 'Fat Man'.**

Aeth 66 o flynyddoedd heibio ers yr arbrofion erchyll hyn a laddodd gannoedd o filoedd o bobl yn y fan a'r lle, llawer ohonynt yn ddinasyddion cyffredin. Dioddefodd degau o filoedd o bobl eraill farwolaeth araf oherwydd eu hanafiadau, a achoswyd gan wres ofnadwy'r danchwa a salwch ymbelydrol . . . Wrth i'r drychineb niwclear yn Fukushima barhau i ddatblygu, mae canfyddiad pobl Japan wedi treiddio'n ddyfnach.

Goroesodd Sumiteru Taniguchi anafiadau mawr a ddioddefodd yn ystod bomio niwclear Nagasaki ac, yn 82 oed, dywedodd yn ddiweddar: 'Ni all pwer niwclear a'r ddynolryw gydfodoli. Rydym ni a oroesodd y bom atomig wedi dweud hynny erioed. Ac eto, cafodd defnyddio pwer niwclear ei fyflwyno fel peth "heddychlon" ac aeth yn ei flaen. Wyddoch chi byth pryd y gallai trychineb naturiol ddigwydd. Allwch chi byth ddweud na fydd damwain niwclear byth yn digwydd.'

Mae'r rhifyn hwn o *The Spokesman* yn cynnwys: *Hibakusha and Fukushima* – Terumi Tanaka; *Fukushima's Radioactive Elements* – Helen Caldicott; *Black Rain* – The Country and the City – Raymond Williams. A llawer, llawer mwy.

**The Spokesman 114 (ISBN 978 0 85124 8097), ar gael gan Spokesman Books am £6.00 (yn cynnwys cludiant), gweler www.spokesmanbooks.com**
**t: 0115 970 8318**
**e: elfeuro@compuserve.com**

The Spokesman yw cyfnodolyn Sefydliad Heddwch Bertrand Russell ac mae'n cynnwys newyddiaduraeth annibynnol am heddwch a diarfogi niwclear, hawliau dynol a sifil, a gwleidyddiaeth gyfoes.

**Sul 4 Awst 11am - 3 pm**
**CROESOSWALLT** Gardd Heddwch Wilfred Owen tu ôl i Sainsbury's
***Picnic Heddwch i nodi Dydd Hiroshima***
Clymblaid Heddwch Croesoswallt
Cinio tua hanner dydd, gyda 'Cofio Hiroshima' mewn cerddi i ddilyn. Gwneud crehyrod papur a chwaraeon. Dewch â bwyd. Os am ddod â stondin neu weithgaredd, ffoniwch John/Ros t: 01939 260 444

**4-11 Awst**
**EISTEDDFOD GENEDLAETHOL BRO MORGANNWG, LLANDW**
Ymwelwch ag CND Cymru a Chymdeithas y Cymod yn y Babell Heddwch, dewch i weld Arddangosfa Byncer Pen-y-bont (1982), ac arwyddwch y cerdyn i wrthwynebu unrhyw awgrym y gellid lleoli arfau niwclear yng Nghymru.
www.cndcymru.org

**Llun 6 Awst Dydd Hiroshima**
**HWLFFORDD gyda'r nos**
***Seremoni Arnofio Canhwyllau***
Gosodir 67 o ganhwyllau i arnofio ar yr afon i gynrychioli 67 mlynedd ers i'r UD ollwng bom niwclear yn fwriadol ar boblogaeth sifil Hiroshima a Nagasaki ym 1945.
Grwp Heddwch Sir Benfro
t: 01834 845 868
e: anne.gregson@littlewedlockgallery.co.uk

**Llun 6 Awst Dydd Hiroshima**
11.00am ymlaen
**YR EISTEDDFOD GENEDLAETHOL - PABELL CYTÛN**
11.00am Gwasanaeth i goffáu'r bom atomig ar Hiroshima.
Arweinir gan Owain Llwr Evans.
Croeso i bawb.
e: cymdeithasycymod@btinternet.com
t: 01286 830 913.

**11.30am 'CALLIA CARWYN':**
Cyfarfod yn y Babell Heddwch yn trafod datganiadau diweddar gan y Prif Weinidog/Llywodraeth Cymru ynglwn â Trident yng Nghymru ac am ynni niwclear. Cadeirydd: Stephen Thomas (CND Cymru). Siaradwyr: Dylan Morgan (PAWB); Menna Machreth (Cymdeithas yr Iaith); Paul Flynn AS. Yna, gorymdaith heddychlon i babell Llywodraeth Cymru i gyflwyno ein neges am Gymru Ddi-niwclear.

**Mawrth 7 Awst 11am**
**YR EISTEDDFOD GENEDLAETHOL - 'MAES GWYRDD'**
Carl Clowes ar ran PAWB yn siarad am Fainffesto Môn.

**Llun – Iau 6-9 Awst**
**PARIS - *Ympryd Ryngwladol yn erbyn Arfau Niwclear***
Pedwar diwrnod o weithredu ym Mharis!
www.vigilancehiroshimanagasaki.com/

**Sadwrn 8 Medi 2:30pm**
**ABERYSTWYTH** Canolfan y Morlan,
***Rali Ryngwladol: Dathlu 50 mlynedd o Ymgyrchu***
Rali flynyddol arbennig i ddathlu hanner canmlwyddiant Cymdeithas yr Iaith Gymraeg.
Siaradwyr: Mike Parker, Awdur a Darlledwr, Llywydd Plaid Cymru, Jill Evans ASE, Paul Bilbao Sarria Kontseilua Gwlad y Basg, Sian Howys ac eraill. Am ragor o wybodaeth
e: dafydd@cymdeithas.org
t: 01970 624 501

**15 - 17 Medi**
**CANOLFAN ARFAU NIWCLEAR FASLANE, YR ALBAN**
***Ymgynnull am Dridiau o Ganu***
Gwahoddir corau, cantorion a cherddorion o wledydd Prydain a thu hwnt – gyda gweithdai ar gyfer rhai ag offerynnu a/neu ddim ond lleisiau sydd heb fod yn gwybod sut i ganu dros heddwch a chyfiawnder. Canu, gwrando, drymio – ac yfed te. Peidiwch â gadael i'r tywydd Albanaidd eich digaloni – gellir gael amser gwych, p'run bynnag.
e: riseupsinging.tp@gmail.com

**Llun 17 Medi**
**CAERDYDD, Canolfan yr Holl Genhedloedd**
***Y Ganolfan Ddatblygu Rhyngwladol: Uwch-gynhadledd Datblygu Ryngwladol Cymru***
e: naomiblight@wcia.org.uk
t: 029 2022 8549
www.wcia.org.uk/what%27s_on/590

**20 – 22 Medi**
**WRECSAM**
***Tridiau o ddathlu heddwch gydag ysgolion lleol a'r gymuned***
20 Medi – Dathlu Dydd Heddwch yn Ysgol Sant Christopher
21 a 22 Medi – o hanner dydd ar faes y llyfrgell, y tu ôl i Neuadd y Dref. Am ddim, cerddoriaeth fyw, siaradwyr, gweithgareddau, stondin roi a chymryd, rhannu bwyd, gwybodaeth a dathlu.
21 a 22 Medi – cerddoriaeth fyw yng nghanolfan ddiwylliannol Saith Seren gyda'r hwyr (gyda bar).
Croeso i berfformwyr, siaradwyr, artistiaid a chynorthwywyr.
Cysylltwch â:
e: peacedaywrexham@yahoo.co.uk
t: Genny 0845 330 4505

**Hydref 5-8**
**GORSAF BWER NIWCLEAR HINKLEY POINT**
***Tresmasu Torfol***
Mae'r gynghrair Atal Niwclear Newydd yn cynllunio tresmasu torfol ar y safle a glustnodwyd ar gyfer gorsaf bwer anferth Hinkley C.
Ym mis Mawrth, cymerodd rhyw fil o bobl ran mewn gwarchae 24-awr ar fynedfa gorsaf bwer niwclear EDF yng Ngwlad yr haf. Bwriad y gwarchae yw galw sylw at y ffaith fod EDF eisoes yn difetha tir bregus wrth baratoi i adeiladu – er nad yw'r cwmni wedi derbyn caniatâd cynllunio eto, a bod buddsoddwyr yn ymddangos yn llai llai eiddgar i suddo'u harian yn y project.
Am fwy o wybodaeth, ymwelwch â gwefan Atal Niwclear Newydd:
www.stopnewnuclear.org.uk

**Iau 4 Hydref 7.30pm**
**CROESOSWALLT** Stafell Walford Davies, Neuadd y Dref, Bailey Head
Sgwrs am Awyrennau Di-beilot – a ffilm
Y siaradwr fydd Chris Cole, o Drone Wars UK.
Cysyllter â: John/Ros t: 01939 260 444

**6 - 13 Hydref**
**POBMAN**
**Wythnos o Weithredu yn erbyn Awyrennau Di-beilot ac Wythnos Cadw Lle i Heddwch**
Trefnwch ddigwyddiad!
www.dronewarsuk.wordpress.com
www.bepj.org.uk a/neu
www.cymdeithasycymod.org.uk

**13 a 14 Hydref**
**LLUNDAIN** Y Sefydliad Iechyd Plant, Coleg y Brifysgol, Llundain
Cynhadledd Ryngwladol CND Prydeinig: Tuag at Ddwyrain Canol Di-niwclear
www.cnduk.org

## 16 Hydref
**Hanner dydd tan 4 pm**
**CAERDYDD**
**y Cynulliad Cenedlaethol**
**Digwyddiad i nodi cyflwyno'r ddeiseb 'Gwrthwynebu Symud Trident i Gymru'**
yn ffurfiol – arwyddwch nawr, da chi, os nad ydych wedi gwneud eisoes:
http://tinyurl.com/cm3b4uf
***Gweler tud. 3 am fanylion***
**BYDDWCH YNO!!**

## Papurau Cefndir
Mae cyfres newydd o daflenni gwybodaeth dwyieithog ar gael gan CND Cymru.

Teitlau hyd yn hyn:
1. Henry Richard AS
2. Bradley Manning
3. Adar Angau Dros Aberporth

Mae rhifau 1-3 ar gael drwy'r post. Anfonwch amlen C5 (maint A5) gyda chyfeiriad a stamp arni at CND Cymru. Am gost niferoedd mwy, cysylltwch ag CND Cymru:
t: 01239 85 11 88
e: heddwch@cndcymru.org

## Aelodau'n Hanfodol!
Croeso nôl i bawb sydd newydd ailymaelodi ag CND Cymru, a diolch o galon i bob un a gyfrannodd yn hael ar ben eu tâl aelodaeth. Mae hyn i'w groesawu'n fawr, yn enwedig â'n hymgyrchoedd newydd ar fin cychwyn. Cofiwch – y prif beth sy'n cynnal CND Cymru yw ei aelodaeth – da chi, anogwch eich ffrindiau a'ch teulu i ymaelodi a'n cefnogi! Am ffurflen aelodaeth, cysylltwch ag CND Cymru- manylion ar dud. 2.

**Michael Freeman, Ysgrifennydd Aelodaeth a Thrysorydd**

## Eleni Gwisgwch Babi Gwyn a ...
* **choffáu holl ddioddefwyr rhyfel;**
* **galaru dros y dinistr amgylcheddol a achosir ganddo**
* **gwrthod rhyfel fel cyfrwng newid cymdeithasol**
* **galw am ddialog a ffyrdd heddychlon o ddatrys gwrthdaro**
* **dangos eich ymrwymiad i adeiladu gwell dyfodol**

**. . . oherwydd mae cofio'n bwysig, ond dydy cofio ddim yn ddigon.**

Yn y blynyddoedd diwethaf, cafodd torchau o babïau gwynion eu gosod yn swyddogol wrth gofebau rhyfel yng Nghymru yng Nghasnewydd, Arberth ac Aberystwyth.
Mae Pabïau Gwyn ar gael â chanol yn dwyn y gair 'Peace' yn Saesneg gan y PPU: 25 Pabi am £15.00, 10 Pabi am £7.00, 5 Pabi am £3.50, Mae pecyn arddangos o 100 ar gael hefyd, ond yn Saesneg yn unig (mae'r cwbl yn cynnwys cludiant).
www.ppu.org.uk/whitepoppy
Peace Pledge Union, 1 Peace Passage, Llundain N7 0BT t: 020 7424 9444
Mae pecynnau o Babïau Gwyn â 'Hedd' yn y canol yn Gymraeg ar gael gan CND Cymru am yr un prisiau ag uchod. Anfonwch sieciau (yn daladwy i CND Cymru) gyda'ch enw a'ch cyfeiriad at Jill Gough (gweler cysylltiadau tud. 2).

## ATAL Y WASG
**'Ddim yn Fy Enw I'!**
**Cyhoeddwyd sengl newydd gan Côr Cochion Caerdydd, 'Not in My Name', ar label *Tarw Du*. Bydd unrhyw elw yn mynd tuag at gronfa amddiffyniad cyfreithiol Bradley Manning ac wedi hynny i'r mudiad heddwch rhyngwladol trwy law CND Cymru.**
**Bwriedir rhoi fideo ar YouTube (chwiliwch am 'Côr Cochion Caerdydd').**
www.tarwdu.com